# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

**(Multi Location Microsoft Teams/Council Chamber)**

| **Aelodau yn Bresennol:** | **Dydd Llun, 27 Tachwedd 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorwyr A.J.Richards** |
| **Is-gadeiydd:** | **Cynghorwyr J.Henton** |
| **Cynghorwyr**: | S.Paddison, D.Whitelock, W.Carpenter, A.Dacey, H.Davies, A.Lodwig, S.Renkes, L.Williams, R.G.Jones a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion yn bresebbol:** | Neil Chapple<br>Gavin White<br>Sarah McCluskie |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cynghorydd A Richards bawb i'r cyfarfod. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r pwyllgor y bydd eitem 7 ar yr agenda yn cael ei hadolygu cyn eitem rhif 6 ar yr agenda.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Derbyniwyd y datganiadau o fuddiannau canlynol,

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Paddison | Yn erbyn eitem rhif 6 ar yr agenda - Nid ystyriwyd bod y budd yn bersonol nac yn rhagfarnol ac arhosodd y Cyng. Paddison yn y cyfarfod i gymryd rhan yn y bleidlais. |
| Y Cynghorydd A Lodwig | Yn erbyn eitem rhif 6 ar yr agenda - Nid ystyriwyd bod y budd yn bersonol nac yn rhagfarnol ac arhosodd |

y Cyng. Lodwig yn y
cyfarfod i gymryd rhan
yn y bleidlais.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2023 fel cofnod gwir a chywir, a nodwyd un gwall yn erbyn eitem 6 ar yr agenda yn y pecyn a ddosbarthwyd yn breifat.

4. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

5. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Yn unol ag Adran 100A(2) a (7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod

6. **TRWYDDEDU GYRWYR CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 1**

Rhoddodd y Rheolwr Trwyddedu drosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

7. **TRWYDDEDU GYRWYR CERBYD HACNI A HURIO PREIFAT - ACHOS 2**

Rhoddodd y Rheolwr Trwyddedu drosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat.

Roedd y gyrrwr yn bresennol ac anerchodd y pwyllgor.

**Penderfyniad:**
Ar ôl clywed yr holl sylwadau ac ar ôl adolygu'r adroddiad a ddosbarthwyd yn breifat, bod y gyrrwr yn cael llythyr rhybuddio. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r gyrrwr gael ei annog i ddarllen

llenyddiaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 ac, os oedd ar gael, i fynd ar gwrs yn ymwneud â'r un peth.

**CADEIRYDD**